**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU NEWID SEFYDLIADOL**
**DYDD LLUN, 27 IONAWR 2020**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Llun, 27 Ionawr 2020

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Dave Mackie (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Geoff Collett, Andy Dunbobbin, Paul Johnson, Tudor Jones, Brian Lloyd, Kevin Rush, Ralph Small a Martin White

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Sean Bibby, Andy Williams a David Wisinger. Y Prif Weithredwr

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Carolyn Thomas (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad)

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg), y Cynghorydd Derek Butler (Aelod Cabinet Datblygu Economaidd), y Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Prif Swyddog (Tai ac Asedau) a'r Rheolwr Menter ac Adfywio

**HEFYD YN MYNYCHU:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd

## 35. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd y Cynghorwyr Derek Butler a Dave Mackie gysylltiad personol â'r eitem ganlynol: Eitem 6 - Adroddiad Diweddaru Fesul Cam Trawsnewid Model Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd

Datganodd y Cynghorydd Tudor Jones gysylltiad personol â'r eitem ganlynol: Eitem 7 – AURA – Adnewyddu Contract Gwasanaeth

## 36. COFNODION

Cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod ar 9 Ragfyr 2019 yn gofnod cywir.

Cynigiodd y Cynghorydd Geoff Collett eu bod yn cael eu cymeradwyo ac fe eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Paul Johnson.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 37. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr adroddiad a oedd yn amlinellu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol drafft presennol y Pwyllgor. Tynnodd sylw at yr

eitemau a drefnwyd ar y Rhaglen i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor, i'w gynnal 16 Mawrth.

Yn dilyn awgrym gan y Cynghorydd Tudor Jones, cytunwyd y byddai eitem ar Cambrian Aquatics yn cael ei chynnwys ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i'w hystyried yng nghyfarfod y dyfodol o'r Pwyllgor.

Rhoddodd yr Hwylusydd ddiweddariad ar olrhain camau gweithredu a chyfeiriodd at y cam gweithredu a gododd o gyfarfod 1 Gorffennaf, ynglŷn â Gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng y Cyngor a Gwasanaeth a Rennir gyda Wrecsam, a oedd ar y gweill. Rhoddodd wybod fod pob cam gweithredu arall wedi'i gwblhau.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i cyflwynwyd, yn cael ei chymeradwyo;

(b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen;

(c) Bod eitem ar Cambrian Aquatics yn cael ei chynnwys ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i'w hystyried yng nghyfarfod y dyfodol o'r Pwyllgor; a

(d) Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu heb eu cwblhau.

## 38. GWERTH CYMDEITHASOL

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) yr adroddiad a rhoddodd wybod bod y Cyngor wedi mabwysiadu ei Strategaeth Gwerth Cymdeithasol yn gynharach eleni, i nodi sut y gellid cyflawni mwy o fantais gymunedol o wasanaethau a gwariant presennol y Cyngor. Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad ar y gwaith a wnaed ers y dyddiad hwn, ar ddulliau sy'n dod i'r amlwg a fabwysiedir i ddarparu gwerth cymdeithasol ac ar feysydd gwaith y dyfodol. Gofynnwyd hefyd i'r aelodau ystyried Polisi Caffael Gwerth Cymdeithasol drafft a greodd fframwaith galluogi i gryfhau'r dull i gynhyrchu gwerth cymdeithasol drwy wariant y Cyngor a gaffaelwyd.

Cyflwynodd y Rheolwr Menter ac Adfywio'r adroddiad. Rhoddodd wybodaeth gefndir ac adroddodd ynghylch y prif ystyriaethau, fel y manylwyd yn yr adroddiad, a chyfeiriodd at y meysydd o ddarparu gwerth cymdeithasol yn y 12 mis nesaf, darparu gwerth cymdeithasol drwy gaffael, cynnydd hyd yn hyn a gweithgarwch y dyfodol.

Gofynnodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin am eglurhad ynghylch y term 'lleol' a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad. Gofynnodd hefyd sut yr oedd y Polisi Gwerth Cymdeithasol yn cysylltu â menter Caffael Llywodraeth Cymru GwerthwchiGymru. Holodd y Cynghorydd Dunbobbin a oedd y pecyn meddalwedd a oedd yn ofynnol i alluogi rheolaeth effeithiol o werth cymdeithasol ar draws y Cyngor, wedi'i brynu gan ddarparwr lleol.

Mewn ymateb i'r sylwadau a'r ymholiadau a godwyd gan y Cynghorydd Dunbobbin, rhoddodd y Rheolwr Menter ac Adfywio wybod bod tair haen, sef Sir y Fflint, is-ranbarthol a Chynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy yn bennaf. Gan gyfeirio at Fenter Caffael Llywodraeth Cymru GwerthwchiGymru, cadarnhaodd y gallai gynnwys gofynion polisi gwerth cymdeithasol. Ar y mater o gyflenwi meddalwedd, eglurodd y Rheolwr Menter ac Adfywio y cafwyd proses gaffael agored, ond nid oedd modd ei gyrchu'n lleol. Gan ymateb i gwestiwn arall a godwyd gan y Cynghorydd Dunbobbin ynghylch is-gontractio, dywedodd y Rheolwr Menter ac Adfywio fod is-gontractio'n rhoi cyfle i gontractwyr lleol chwarae mwy o ran mewn prosiectau mwy.

Cytunwyd y byddai adroddiad arall yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r data a gafodd ei ddal drwy'r system TGCh gwerth cymdeithasol newydd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Tudor Jones at y cyfleoedd i ddarparu gwerth cymdeithasol sylweddol, fel y manylwyd yn adran 1.05 o'r adroddiad, a mynegodd amheuon ynghylch y cyfle am fuddsoddiad yn y dyfodol gan Aura.

Croesawodd y Cynghorydd Paul Johnson yr adroddiad a rhoddodd sylwadau ar fodel Preston, lle'r oedd gwerth cymdeithasol wrth wraidd strategaeth economaidd y Cyngor. Gofynnodd sut y gellid trosi'r Polisi Caffael Gwerth Cymdeithasol i adeiladu cyfoeth cymunedol. Fe wnaeth y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) gydnabod y pwyntiau a godwyd a chytunodd fod peth tebygrwydd gyda model Preston wedi'i ystyried yn ystod datblygiad o'r Strategaeth. Rhoddodd y Cynghorydd Johnson sylw ar yr angen i godi proffil y Polisi Gwerth Cymdeithasol. Cytunodd y Prif Swyddog fod angen codi proffil Gwerth Cymdeithasol yn Sir y Fflint a rhoddodd sylw, ar ymweliad i Preston, eu bod â brand wedi'i ddiffinio'n glir ac roedd y neges yn gyson ar draws pob maes gwasanaeth.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Tudor Jones ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Paul Johnson.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn gyda darparu gwerth cymdeithasol yn Sir y Fflint ac yn cefnogi'r camau nesaf arfaethedig; a

(b) Cefnogi'r Polisi Caffael Gwerth Cymdeithasol drafft.

## 39. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig o dan baragraff(au) 15 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**40. ADRODDIAD DIWEDDARU FESUL CAM TRAWSNEWID MODEL YMDDIRIEDOLAETH THEATR CLWYD**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) adroddiad fesul cam ar gynnydd hyd yma ar drosglwyddo Theatr Clwyd i fodel llywodraethu newydd o dan Fodel Cyflawni Amgen (MCA) y Cyngor erbyn Ebrill 2021, a gytunwyd gan y Cabinet mewn egwyddor. Cynghorodd mai'r amcan oedd diogelu dyfodol Theatr Clwyd ac mai model ymddiriedolaeth annibynnol oedd y model a ffafriwyd i gyflawni hyn. Byddai angen gwneud penderfyniad terfynol ar wneud trosglwyddiad erbyn canol 2020 i ganiatáu digon o amser ar gyfer cynllunio trosiannol.

Adroddodd y Prif Swyddog ar y prif ystyriaethau, fel y manylwyd yn yr adroddiad.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Paul Johnson ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Martin White.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd i ddiogelu trosglwyddiad i fodel ymddiriedolaeth annibynnol ar gyfer Theatr Clwyd ar ffurf cwmni cyfyngedig drwy warant gyda statws elusennol, ar gyfer 1 Ebrill 2021; a

(b) Chefnogi penderfyniad terfynol ar drosglwyddiad yn 2020, yn seiliedig ar adroddiad diwydrwydd dyladwy llawn a therfynol.

**41. AURA – ADNEWYDDU'R CONTRACT GWASANAETH**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) yr adroddiad i ystyried y bwriad i ymestyn y contract gwasanaeth gydag Aura. Rhoddodd wybod bod y contract gwasanaeth cychwynnol gydag Aura am gyfnod o dair blynedd, gan ddod i ben 31 Awst 2020. Roedd y cytundeb rhwng y Cyngor ac Aura'n cynnwys opsiwn i ymestyn y contract am ddwy flynedd arall drwy gytundeb ar y ddwy ochr. Mae'r adroddiad yn argymell gweithredu cytundeb o'r fath ac yn ymdrin â phrif delerau'r cytundeb hwnnw.

Rhoddodd y Prif Swyddog wybodaeth gefndir ac adroddodd ar y prif ystyriaethau, fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.

Yn ystod trafodaeth, ymatebodd Arweinydd y Cyngor a'r Prif Swyddog i'r cwestiynau a'r pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Tudor Jones

Cynigiodd y Cynghorydd Martin White yr argymhellion yn yr adroddiad ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Andy Dunbobbin.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn cefnogi'r bwriad i ymestyn y contract gwasanaeth gydag Aura am ddwy flynedd arall (1 Medi 2020 tan 31 Awst 2022); a

(b) Bod Aura'n cael eu gwahodd i gyflwyno'r iteriad nesaf o'u cynllun busnes i Drosolwg a Chraffu ddechrau blwyddyn ariannol 2020/21, a chynnwys

datganiad penodol o amcanion gwerth cymdeithasol yn unol â Strategaeth Gwerth Cymdeithasol sydd newydd ei mabwysiad gan y Cyngor.

## 42. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelod o’r cyhoedd na’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 11.25 am)

.................................................

**Cadeirydd**